Brymbo Heritage Trust

Stori Brymbo

Roots to Shoots
O'r Gwraidd i'r Brigau

**YMDDIRIEDOLAETH TREFTADAETH BRYMBO**
*Yn dathlu ein hanes naturiol, diwydiannol a chymdeithasol.*
Rhif Elusen Gofrestredig 1174269

Yn swatio ymysg y bryniau isel a'r cymoedd ar ochr orllewinol Wrecsam, Gogledd Ddwyrain Cymru, mae Brymbo yn gymuned agos sydd â synnwyr cryf o hunaniaeth wedi'i adeiladu ar flynyddoedd o gloddio am lo a haearn a gwaith dur. Yn 1990 caeodd yr olaf o'i diwydiannau – ei gwaith dur. Collwyd 1125 o swyddi ar unwaith. Torrwyd calon y gymuned a dilynwyd hynny gan deimlad o anobaith dwfn.




Cyn hir cafodd yr hen waith ei chwalu i ryddhau tir ar gyfer adeiladu tai, ond cafodd y rhannau hynaf eu diogelu a pharhaodd y rheiny i sefyll. Disgynnodd tawelwch ac roedd unrhyw obaith y byddai'r pentref yn goresgyn hyn yn teimlo'n bell iawn i ffwrdd. O fewn ychydig flynyddoedd dechreuodd pobl leol ddangos diddordeb mewn troi'r adeiladau oedd ar ôl yn ganolfan dreftadaeth, ac arweiniodd hynny at ffurfio Grŵp Treftadaeth Brymbo. Yn 2004, rhoddwyd hwb enfawr i obeithion y grŵp pan gafwyd hyd yn ddamweiniol i amrywiaeth o ffosilau coed a phlanhigion dwys o ansawdd da.






Rhoddwyd cynnig yn 2013 ar ganfod pa mor ymarferol fyddai dathlu'r cyfuniad o dreftadaeth ddiwydiannol Brymbo a'i hanes naturiol er mwyn adrodd ei straeon plethedig o lo, haearn a dur. Profwyd bod hyn yn gweithio. Dros y blynyddoedd ers hynny, cafwyd dilyniant cyflym o weithgareddau cwmpasu, ymgysylltu, creu cynlluniau meistr a modelau busnes, gwaith cadwraeth, datblygu partneriaethau, cyfrifo costau a chreu galluedd. Cynyddodd y momentwm nes cyrraedd y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw





Rydym wedi ein cofrestru ar hyn o bryd fel Sefydliad Corfforedig Elusennol ac rydym yn symud tuag at fod yn gwmni cyfyngedig gyda statws elusen. Rydym yn ymdrechu'n galed i roi'r galon yn ôl i mewn i'n cymuned drwy ddatblygu ein safle unigryw a rhoi hunaniaeth newydd iddo:

**Brymbo: Stori 300 o Flynddoedd**:

- Atyniad i ymwelwyr sydd â fforest ffosiledig rhyngwladol arwyddocaol yn dyddio yn ôl mwy na 300 miliwn o flynyddoedd, adeiladau diwydiannol o'r 18fed a'r 19eg ganrif a thirwedd o arwyddocâd cenedlaethol, sy'n adrodd straeon y bobl a wnaeth dur Brymbo'n fyd-enwog yn yr 20fed ganrif;
- canolfan ddysgu, sy'n darparu addysg mewn hanes naturiol a gwyddoniaeth, a hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu, peirianneg a threftadaeth;
- lle i'r gymuned ddod at ei gilydd ac i gynnal digwyddiadau perfformio; a
- lle i gynnal, datblygu a dathlu menter

A gyda chymorth amrywiaeth o bartneriaid sector cyhoeddus a thrydydd sector, mae hyn oll yn cael ei ddarparu gan y bobl sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf ac sydd â'r mwyaf i'w ennill o'i lwyddiant – ein pobl *ni.* O gyn-weithwyr sy'n rhannu eu hatgofion ac yn pasio eu sgiliau ymlaen, i drigolion yn hen ac ifanc sy'n dod â dulliau ac egni ffres…yn cydweithio i ofalu am ein lle arbennig a'i ddathlu. Cymuned yn arwain ei hadnewyddiad ei hun, gan ddefnyddio ei threftadaeth gyffredin i'w rhwymo.






Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig sydd ag amcanion i ddiogelu, addysgu ac adfywio treftadaeth. Mae maint ein hymdrech, arweiniad, gallu a chymorth fel cymuned wedi tyfu'n gyflymach nag erioed dros y blynyddoedd diwethaf: Ers 2017 rydym wedi sicrhau mwy na 8.2m i ddarparu ein gwaith o adfer ac ailbwrpasu'r safle a rhoi bywyd newydd iddo.

## Ein cynnig

Mae ein cynigion wedi eu seilio ar greu'r atyniad i ymwelwyr ('Stori 300 Miliwn o Flynyddoedd') a pharc cymunedol ('Or Gwreiddiau i'r Brigau'). Mae model busnes yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi darpariaeth a chynaliadwyedd y ddau hyn drwy berchnogaeth a chyfranogaeth eang y gymuned, defnydd gweladwy o ynni adnewyddadwy, llogi cyfres o weithfannau, a chynnal a darparu rhaglen liwgar o ddigwyddiadau drwy'r flwyddyn gron. A thrwy danategu hyn oll gyda chanolfan i ddysgu, bydd pobl o bob oed ac angen – p'un a ydyn nhw'n ddisgyblion ysgol, yn hyfforddeion galwedigaethol neu'n ymchwilwyr ôl-raddedig – yn rhan o'r tîm sy'n gwneud i hynny ddigwydd.

Mae ein cynlluniau'n eistedd ochr yn ochr â chynllun ehangach o ddatblygiad sector preifat a chyhoeddus ehangach yr arhoswyd yn hir amdano ('Parc Brymbo'), gydag adeiladu cartrefi, ysgol gynradd a siopau newydd.

## Y gwahaniaeth a wnawn

- Bydd ein gwaith yn tywys ***adfywiad ein cymuned,*** a byddwn yn croesawu a datblygu ein sgiliau a'n doniau, ac yn cefnogi synnwyr cynyddol o gydweithio a chydlyniad cymunedol;

- Bydd ein gwaith yn cefnogi cadwraeth adnoddau naturiol Cymru, ei threftadaeth ddiwydiannol a'i hanes cymdeithasol, gan sicrhau eu bod wedi eu ***diogelu a'u rheoli a'u bod ar gael*** i'r cenedlaethau sydd i ddod; a

- Bydd ein gwaith yn helpu ***pobl i ddatblygu eu dealltwriaeth*** o wyddorau'r ddaear, o ddiwydiant trwm, o hanes cymdeithasol, ac o'r ffordd y tyfodd ac y pylodd diwydiant Cymru a sut mae'n cael ei ail-eni mewn ffordd gynaliadwy.







## Pam mae angen gwneud y gwahaniaeth

- Dros y 30 mlynedd diwethaf mae pobl wedi cysylltu Brymbo fwy a mwy gyda phroblemau amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, o ynysu cymdeithasol ac anobaith. O'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU, mae'r disgwyliad oes yn is, mae'r cyfraddau salwch cronig yn uwch, mae'r cymwysterau a gyflawnir yn is ac mae incwm y cartref yn is. Mae ar Frymbo angen buddsoddiad i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn.

- Yn y 18fed ganrif, Cymru oedd cenedl ddiwydiannol gyntaf y byd. Nawr mae'n arwain yr ymdrech i ymdrin â phroblemau ***datblygiad cynaliadwy***. Gallai stori Brymbo fod yn adlewyrchiad o Gymru a chwarae rhan yn y gwaith o ofalu am ein hasedau am genedlaethau i ddod. Mae angen cysylltu Brymbo â dyfodol llewyrchus yn ogystal â gorffennol balch.

- Mewn oes ddigidol lle gellir dysgu sgiliau a gwybodaeth o gadair freichiau, mae angen i bobl allu cael gafael ar ffyrdd o ddysgu sy'n darparu ***ystyr a chysylltiad***, lle mae rhoi cynnig ar bethau a methu yn cryfhau penderfynoldeb a boddhad. Gall Brymbo ddod yn esiampl o ddysgu ymarferol.








BRYMBO: A 300 Million Year Story
Visitor attraction
Events Space
Learning Centre
Lettable Space
Community Park
A New Heartbeat
Solar power
Colliery (in trees)
Nature's reclamation
Agent's House
the story of a changing landscape
Pattern Makers' Workshop
stories, schools, special events
The Ironworks
charting Brymbo's industry
The Fossil Forest
covered hands-on excavation
The Machine Shop
welcome & learning
Robertson Square
performance / events space
Public square
Car parking
VRON
TANYFRON
PLAS BRYMBO
Houses
Solar
Houses
BRYMBO
Brymbo Heritage Area
Enterprise Centre
Houses
Shops
Pub
Houses
School
Health & Houses
Lodge Valley Park
LODGE
PENTRE BROUGHTON
BRYMBO


**Ein cynigion ffisegol – y newidiadau rydym eisiau eu gwneud…**

O'r funud y maen nhw'n cyrraedd i'r amser y maen nhw'n ymadael, p'un a ydyn nhw'n ymwelwyr, yn drigolion, dysgwyr, tenantiaid, cyd-ddarparwyr neu'n dod i ddigwyddiad – bydd ein gwaith yn gwneud i bob un ddweud 'Waw!'.




**…a fydd yn galluogi i ni ddarparu amrywiaeth fawr o weithgareddau**

Rydym yn cynnig adeiladu ar ein gwaith presennol i ddarparu pum 'cynnig' sy'n eu hatgyfnerthu ei gilydd:




**Ymwelwyr – Stori 300 Miliwn o Flynyddoedd**
- Dehongliad cyfoethog, dynamig a syfrdanol
- Gweithgareddau ymarferol
- Profiad chwareus sy'n codi'r galon

**Dysgwyr – y Ganolfan Ddysgu**
- Rhaglen i ysgolion, hyfforddeiaethau a phrentisiaethau, lleoliadau ac interniaethau
- Darpariaeth gymunedol i oedolion a chyrsiau blasu

**Mentrau – mannau i'w hurio**
- Unedau manwerthu, swyddfeydd mewn cerbydau trên
- Gweithdai, mannau i wneuthurwyr a defnyddiau 'dros dro'

**Trigolion – Safle Digwyddiadau a Pharc Cymunedol**
- Cerddoriaeth awyr agored, ffilm, theatr, arddangosfeydd, cyfarfodydd selogion a digwyddiadau â thema
- Mannau hygyrch, cyffrous a phrydferth a reolir ar y cyd i bob oedran eu mwynhau

**Pryd fydd hyn yn digwydd?**

- Mae'r gwaith adeiladu'n digwydd rhwng Gorffennaf 2024 a misoedd hwyr 2025, felly byddwn yn agor yn 2026.
- Bydd cyfranogaeth barhaus y gymuned a'r dysgwyr yn rhoi bywyd yn ôl i lawer mwy o leoedd, tirweddau segur, llecynnau a mannau diarffordd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Cronfa Treftadaeth / Heritage Fund
Cronfa Gymunedol / Community Fund
Cadw
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Wrexham / Wrecsam
Amgueddfa Cymru / National Museum Wales